



Glasbrint ar gyfer Troseddwy'r Benywaidd yng Nghymru

Lleiafrif o droseddwy'r yng Nghymru a Lloegr sy'n fenywod, ond eto mae llawer o'r menywod hyn wedi dioddef troseddau eu hunain ac, yn aml, wedi profi cam-drin corfforol neu emosiynol. Dangosodd adroddiad y Farwnes Corstont, Review of Women with Particular Vulnerabilities in the Criminal Justice System (2007), bod menywod yn gallu bod yn agored dros ben i niwed, gydag amrywiaeth o anghenion cymhleth sy'n ymddangos yn wahanol i anghenion dynion sy'n troseddu. Mae dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yn gallu cael effeithiau pellgyrhaeddol a thymor hir ar y menywod eu hunain, eu teuluoedd a'r cymunedau maen nhw'n

byw ynddynt. Mae'r heriau maen nhw'n eu hwynebu mewn perygl o gael eu gwaethygu gan ddedfryd fer o garchar (yn aml ar gyfer troseddau risg isel) a allai amharu ar glymau cymdeithasol pwysig gyda phlant ac aelodau'r teulu, gan gyfrannu at allgáu cymdeithasol a chael effaith niweidiol ar genedlaethau'r dyfodol. Yr her yw darparu dull cydgyssylltiedig sy'n cydnabod anghenion menywod sy'n ymwneud yn benodol â rhywedd, hyrwyddo llesiant cadarnhaol a chynorthwyo canlyniadau tymor hir llwyddiannus i ostwng lefelau aildroseddu. Er mwyn cyflawni hyn, mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth

DU yn cydweithio â phartneriaid cyfiawnder cymdeithasol i ddatblygu glasbrintiau ar gyfer gwasanaethau Troseddwy'r Benywaidd a Chyfiawnder Ieuencid. Mae'r Glasbrint ar gyfer Troseddwy'r Benywaidd yn amlinellu'r uchelgais i gyflymu'r broses o drawsnewid gwasanaethau er mwyn creu cymdeithas decach, fwy cyfartal gyda chanlyniadau gwell a chyfiawnder i bawb. Bydd yn llunio atebion cynaliadwy cymunedol i gadw menywod a chymunedau'n ddiogel ac osgoi ymddygiad troseddol.

<p>Ein dyheadau yw</p> <p>Cefnogi menywod i fyw bywydau cadarnhaol, iach a heb droseddu, gan wella llesiant a gwneud cymunedau'n fwy diogel.</p> <p>Gostwng nifer y menywod yn y system trwy ymyrryd yn gynt i'w cadw nhw'n ddiogel a mynd i'r afael â'r bregusrwydd sy'n arwain at droseddu yn aml.</p> <p>Cyflwyno dull dewr, uchelgeisiol, gyda gwasanaethau trawsnewidiol, cynaliadwy sy'n unigryw i Gymru ac yn cael eu harwain yn lleol, gan adeiladu ar Ddull System Gyfan llwyddiannus y Cynllun Braenaru Merched a dysgu ohono.</p> <p>Creu amgylcheddau diogel lle caiff plant a menywod eu diogelu/gwarchod rhag niwed a'u cefnogi i ffynnu</p> <p>Integreiddio gwasanaethau i gynig cymorth wedi'i dargedu i fenywod, o'r dechrau i'r diwedd, gan gydnabod yr effaith bellgyrhaeddol a thymor hir sy'n codi yn sgil carcharu menywod pan geir dewisiadau amgen sy'n fwy effeithiol wrth fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol.</p> <p>Gweithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a phartneriaid i rannu'r dysg y gallir ei fabwysiadu ar gyfer merched o dan 18 oed, a chydweithio i sicrhau dilyniant yr ymyriadau ar gyfer menywod ifanc sy'n symud at y gwasanaethau oedolion.</p> <p>Gosod y safon ar gyfer gwaith a chydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth DU a phartneriaid yn y dyfodol, gan gymhwyso'r egwyddorion i fabwysiadu dull tebyg i oedolion gwrywaidd sydd mewn perygl o droseddu.</p>	<p>Bydd y Dull System Gyfan yn canolbwyntio ar:</p> <p>Ymyrraeth Gynnar ac Atal Yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r rhesymau craidd dros droseddu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Arallgyfeirio menywod, lle bo'n briodol, oddi wrth drosedd ac i wasanaethau cymorth cynaliadwy, cymunedol sy'n canolbwyntio ar fenywod, ac yn bodloni eu hanghenion Archwilio'r opsiynau ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu llywio gan drawma a all fodloni anghenion menywod a theuluoedd sy'n agored i niwed, y mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn effeithio arnynt, ac sydd mewn perygl o ddod i gysylltiad â'r system, gan ddysgu o'r dull gweithredu Rheoli Achosion Uwch. <p>Llysoedd a dedfrydu Cynyddu hyder mewn dewisiadau amgen yn lle carchar tymor byr a remánd trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> Weithio gyda llysoedd a dedfrydwyr i gael dealltwriaeth well o'r gwasanaethau cymunedol sydd ar gael i fynd i'r afael â'r rhesymau dros droseddu yn uniongyrchol. Hyfforddi gweithwyr proffesiynol ar y rheng flaen i gydnabod ac ymateb i fenywod a theuluoedd sy'n profi trawma. <p>Atebion cymunedol Cynorthwyo menywod, gan gynnwys rhai sydd mewn perygl o droseddu, i ymgysylltu â gwasanaethau yn y gymuned trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> Archwilio amrywiaeth o opsiynau ar gyfer llety diogel, saff a dibynadwy i fenywod yng Nghymru Datblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar fenywod, gan gynnwys perthnasoedd gwaith ystyrion gyda gweithiwr proffesiynol allweddol y gallir ymddiried ynddo, meithrin cryfderau a chydabod y trawma neu'r digwyddiadau niweidiol y mae menywod wedi'u profi, o bosibl, gan ddeall a mynd i'r afael â sut mae hyn yn berthnasol i'w hymddygiad troseddol Ymgorffori llwybrau atgyfeirio clir a chynlluniau unigoleddig wedi'u trefnu ar gyfer menywod sy'n agored i niwed yn y gymuned i ddarparu ymyriadau gan weithwyr proffesiynol hyfforddedig medrus yn brydlon. <p>Y Ddalfa ac Ailsefydlu Cynorthwyo menywod yn y carchar ac wrth ailsefydlu trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> Weithio gyda gwasanaethau adsefydlu i ddarparu ymyriadau cyn rhyddhau ac ar ôl rhyddhau mewn carchardai lle mae menywod o Gymru wedi'u lleoli Sefydlu gwasanaethau i wella a chynnal cysylltiadau gyda phlant a theuluoedd <p>Ymchwil a Gwerthuso Datblygu sail dystiolaeth ar gyfer Cymru ymhellach, gan gyfeirio at dystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol presennol o'r hyn sy'n gweithio, i ddeall anghenion penodol a bregusrwydd menywod sy'n troseddu trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> Werthuso dull system gyfan y cynllun Braenaru Merched (Gwent a De Cymru) er mwyn llywio dyluniad a darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol ar gyfer menywod sydd mewn perygl o droseddu; Gweithio gyda'r Rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd i ymchwilio i effaith ymchwil Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar fenywod yng Nghymru a sut gall gwasanaethau wedi'u llywio gan drawma fodloni anghenion menywod a theuluoedd agored i niwed yn y modd mwyaf effeithiol. 	<p>Ein hegwyddorion arweiniol</p> <p>Canolbwyntio ar ddiodeffwyr: ynghyd â gweld cyflawnwyr yn dod o flaen eu gwell, mae troseddwy'r yn dweud wrthym eu bod nhw eisiau gwybod na fydd hyn yn digwydd byth eto. Rydym yn dysgu o hyd am fodolau o ostwng lefelau aildroseddu. Mae'r dull arloesol ar sail tystiolaeth yn cael ei arwain gan ein hawydd i:</p> <ul style="list-style-type: none"> sicrhau bod llai o bobl yn dioddef troseddu pwysleisio bod menywod sy'n troseddu yn aml yn ddiodeffwyr eu hunain - fel yr amlinellwyd yn Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol (Cymru) 2015 deall bod effaith ehangach troseddu yn gallu gwneud i bobl eraill ddiodeff, y tu hwnt i'r rhai sydd ynghlwm â'r drosedd yn uniongyrchol <p>Amcanion llesiant a blaenoriaethau trawsbynciol Llywodraeth Cymru yn y strategaeth genedlaethol Ffyniant i Bawb, gan fanteisio'n llawn ar gyfraniad partneriaid at y nodau lles.</p> <p>Dull Iechyd Cyhoeddus sy'n rhoi egwyddor Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o wella llesiant Economaidd, Cymdeithasol, Diwylliannol, Amgylcheddol ar waith, gan ddefnyddio pum ffordd o weithio:</p> <p>Tymor hir: torri cylchoedd troseddu rhyng-genhedlaeth, gan greu cymdeithas decach gyda chanlyniadau mwy cyfartal i bawb</p> <p>Atal: diogelu menywod a phlant, gan fynd i'r afael â'r rhesymau craidd dros ymddygiad troseddol</p> <p>Cydweithredu: gweithio gyda'n gilydd i gyflenwi gwasanaethau trawsnewidiol</p> <p>Integreiddio: deall y cysylltiadau ar draws meysydd polisi a sut gall y dull hwn wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ein cymunedau</p> <p>Cynnwys pobl: sicrhau'r dull cywir o ddarparu gwasanaethau effeithiol trwy gynnwys y rhai yr effeithir arnynt (troseddwy'r, menywod, plant a chymunedau)</p> <p>Egwyddorion sy'n canolbwyntio ar fenywod, yn seiliedig ar rywedd, ac wedi'u llywio gan drawma, gan ymateb i anghenion penodol, unigolyddol y boblogaeth amrywiol hon (yn hytrach na fel un grŵp unrhyw) i leihau'r tebygolrwydd o droseddu eto</p>
<p>Sut beth yw llwyddo?</p> <p>Bydd cyflawni ein huchelgeisiau i ostwng lefelau troseddu, gwneud cymunedau'n fwy diogel a rhoi llai o bwysau ar wasanaethau fel plismona ac iechyd, yn gwneud cyfraniad parhaus at adeiladu Cymru rydym ni eisiau ei weld: ffyniannus a diogel, iach a heini, uchelgeisiol a dysgu, unedig a chysylltiedig.</p> <p>Mae ein llwyddiant ar y cyd yn golygu y bydd plant yn cael dechrau gwell i'w bywydau, gan leihau effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod fel cam-drin domestig neu fam sydd yn y carchar.</p> <p>Bydd menywod a phlant yn byw mewn cartref saff a diogel ac, yn sgil hynny, byddant yn llai tebygol o droseddu. Bydd gan fenywod y sgiliau y mae arnynt eu hangen i ofalu am eu hunain a'u plant, a'u galluogi i fyw bywydau gwerth chweil, boddhaus a chadarnhaol yn eu cymunedau. Bydd ein dull cydgyssylltiedig yn arwain at well iechyd a llesiant corfforol ac emosiynol, ac yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol, cefnogol o fewn teuluoedd a chryfhau ein cymunedau.</p> <p>“Weithiau, mae pobl yn cael eu hunain mewn sefyllfa wael, a gall bywyd golli rheolaeth. Mae'n werth rhoi ail gyfle i bobl, oherwydd gall un camgymeriad newid eich bywyd</p> <p>Mae angen i mi fod yn rhiant mwy hyderus rhag i hyn effeithio ar y plant; mae angen help arny nhw hefyd</p> <p>...dim ond eisiau cael ein trin fel bodau dynol – bod rhywun yn gwrando a bod rhywun yno i ni</p> <p>”</p>		